ATODLEN 2

DEDDFAU SENEDDOL

# RHAN 1

## Deddfau Cyffredinol Cyhoeddus

### Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (p. 29)

**468.**—(1) Yn Atodlen 4, yn y darpariaethau y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddynt, yn lle “the Environment Agency” a “the Agency”, ym mhob man lle y maent yn digwydd, rhodder “the appropriate agency”.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i'r darpariaethau a ganlyn yn Atodlen 4—

(a) ym mharagraff 7, yr adrannau 2A i 2D sydd i'w mewnosod yn Neddf Cronfeydd Dŵr 1975;

(b) ym mharagraff 12(5), yr adran 10(3A) sydd i'w mewnosod yn y Ddeddf honno;

(c) ym mharagraff 25(5), yr adran 13(5) sydd i'w mewnosod yn y Ddeddf honno;

(d) ym mharagraff 33, yr adran 21A sydd i'w mewnosod yn y Ddeddf honno;

(e) ym mharagraff 36, yr adran 22C sydd i'w mewnosod yn y Ddeddf honno.